

**GORCHYMYN TRAFFORDD YR M4
(CYFFORDD 34 (MEISGYN), RHONDDA
CYNON TAF I GYFFORDD 49 (PONT
ABRAHAM), SIR GAERFYRDDIN)
(GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2021**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn am fod gwaith yn cael ei wneud ar draffordd yr M4, neu gerllaw iddi, rhwng Cyffordd 34 (Meisgyn), Rhondda Cynon Taf a Chyffordd 49 (Pont Abraham), Sir Gaerfyrddin.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar ddarnau penodedig o draffordd yr M4 o fewn y darnau cyfan a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn pan fydd angen gwneud gwaith mewn safle penodol. Disgrifir y llwybrau eraill yn yr Atodlen hefyd.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 24 Medi 2021. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol dros nos (20:00 – 06:00 o'r gloch), ar sail ysbeidiol, o'r 24 Medi 2021 am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf. Pan fo'n bosibl, bydd hysbysiad ynghylch gwaharddiad yn cael ei arddangos wythnos cyn cau darn penodedig o'r draffordd. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd/dyddiadau yn cael ei arddangos hefyd cyn unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLEN
Gwahardd cerbydau dros dro**

Y darnau o'r cerbyttyffyrdd tua'r gorllewin a thua'r dwyrain o draffordd yr M4 rhwng Cyffordd 34 (Meisgyn), Rhondda Cynon Taf a Chyffordd 49 (Pont Abraham), Sir Gaerfyrddin gan gynnwys yr holl ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gorllewin a thua'r dwyrain rhwng y cyffyrdd hyn.

**THE M4 MOTORWAY (JUNCTION 34
(MISKIN), RHONDDA CYNON TAF TO
JUNCTION 49 (PONT ABRAHAM),
CARMARTHENSHIRE) (TEMPORARY
PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2021**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the M4 motorway between Junction 34 (Miskin), Rhondda Cynon Taf and Junction 49 (Pont Abraham), Carmarthenshire.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services and for the works, from proceeding on specified lengths of the M4 motorway within the overall lengths described in the Schedule to this Notice when work is required at a particular site. The alternative route arrangements are also described in the Schedule.

The Order comes into force on 24 September 2021. The temporary prohibition is expected to operate overnight (20:00 hours – 06:00 hours), on an intermittent basis, from 24 September 2021 for a maximum period of 18 months. Whenever possible, notice of a prohibition will be displayed one week before the closure of a specified length of the motorway. Advance notice of any changes to times/dates will also be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government

**SCHEDULE
Temporary prohibition of vehicles**

The lengths of the westbound and eastbound carriageways of the M4 motorway between Junction 34 (Miskin), Rhondda Cynon Taf and Junction 49 (Pont Abraham), Carmarthenshire including all westbound and eastbound exit and entry slip roads between these junctions.

Trefniadau llwybrau eraill

Codir arwyddion priodol i nodi'r gwyriad ar gyfer y llwybrau eraill a byddant yn amrywio gan ddibynnu ar ben y daith a phryd y bydd darn penodol o'r M4 ar gau dros dro i draffig.

Bydd llwybrau eraill ar gael drwy fynd ar y brif M4 (y ddwy gerbyttfordd), yr A4232, yr A48, yr A473, yr A4229, yr A4241, y B4286, yr A4107, yr A474, yr A465, yr A4230, yr A4067, yr A483, yr A484 a'r A4138, fel y bo'n briodol.

Alternative route arrangements

The alternative routes will be indicated with appropriate diversion signs and will vary depending on destination and when a particular length of the M4 is temporarily closed to traffic.

Alternative routes will be available via the main M4 (both carriageways), A4232, A48, A473, A4229, A4241, B4286, A4107, A474, A465, A4230, A4067, A483, A484 and A4138, as appropriate.